**PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD STD01-99(p.2)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Iau, 22 Gorffennaf 1999 |
| **Amser:** | 2pm-3.30pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |
| **Teitl:** | **COFRESTR BUDDIANNAU AELODAU** |

***Diben***

1. Mae'r papur yn disgrifio'r gofynion ar gyfer cofrestru buddiannau yn yCynulliad a'r trefniadau sydd bellach yn eu lle ac/neu sydd yn yr arfaeth ar gyfercynnal Cofrestr ffurfiol a'i chadw'n agored ar gyfer ei harchwilio.

***Camau Gweithredu ac Amseru***

2. Gwahoddir y Pwyllgor yn benodol i gytuno ar yr argymhellion ym mharagraffau 5 a 6isod yn ei gyfarfod ar 22 Gorffennaf er mwyn i drefniadau allu cael eu gwneud yn ystod yToriad i gyhoeddi'r Gofrestr ym mis Medi.

***Cefndir – Cofrestru Buddiant***

3. Yn unol ag adran 72 Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a rheol sefydlog 4, mae'nofynnol i aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru gofrestru buddiannau a restrir yn Atodiad yRheolau Sefydlog cyn pen wyth wythnos ar ôl tyngu'r llw neu roi'r cadarnhad aci gofrestru unrhyw newidiadau i'r buddiannau hynny cyn pen pedair wythnos ar ôli'r newid hwnnw ddigwydd. Gosodwyd y Canllaw i Aelodau'r Cynulliad ar Gofrestrua Datgan Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mai a chafoddei fabwysiadu gan y Cynulliad ar 19 Mai 1999. Mae ymrwymiad ar yr holl Aelodau igwblhau, arwyddo a dychwelyd y ffurflen benodedig yn bersonol i'r Swyddfa Gyflwyno.Tyngodd yr holl Aelodau eu llwon (neu roi eu cadarnhad) ar 10/11 Mai, felly'r terfynamser ar gyfer dychwelyd y ffurflenni oedd 5/6 Gorffennaf.

4. Amgaeir dadansoddiad o'r buddiannau sydd wedi'u datgan hyd yma.

***Argymhellion – Y Gofrestr a Hawl y Cyhoedd i'w Harchwilio***

5. Mae'n ofynnol yn ôl y Ddeddf a'r rheolau sefydlog bod cofrestr ofuddiannau Aelodau yn cael

ei chadw a'i chyhoeddi gan y Llywydd a bod copïau ar gaeli'r Aelodau a'r cyhoedd eu harchwilio. Y Swyddfa Gyflwyno sy'ncyflawni'r swyddogaeth hon ar ran y Llywydd. **Argymhellir** bod Aelodau yncadarnhau eu bod yn fodlon â'r trefniant hwn.

6. Mae'r Gofrestr ar ffurf cronfa ddata electronig y gall Aelodau a staff yCynulliad trwy wefan Mewnrwyd y Cynulliad Cenedlaethol ei  darllen a gall y cyhoedd achyrff eraill eu harchwilio trwy adroddiad ar y gronfa ddata hon a gaiff ei gyhoeddi arsafle Rhyngrwyd y  Cynulliad Cenedlaethol. Caiff y gronfa ddata ei diweddaru pan acos daw'r Aelodau â'u newidiadau. **Argymhellir** bod yr adroddiad o'rFewnrwyd yn cael ei gyhoeddi bob chwarter (yr arfer yn Nhy'r Cyffredin yw ei gyhoeddiunwaith y flwyddyn) a bod yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi  ym mis Medi.

7. Gall aelodau'r cyhoedd ddod i weld y Gofrestr yn bersonol yn adeilad yCynulliad Cenedlaethol ym Mae Caerdydd. Daw clerc o'r Swyddfa Gyflwyno â chopio'r gofrestr i'r unigolyn dan sylw. Gellir gofyn am ddarnau neu gopïau o'rgofrestr ac fe ellir codi tâl bychan am hynny.

***Cydymffurfio***

8. Mae'r trefniadau sydd bellach yn eu lle ac sydd wedi'u hargymell i'rPwyllgor yn cydymffurfio â gofynion y Rheolau Sefydlog a Deddf Llywodraeth Cymru 1998.Nid oes goblygiadau ariannol i'r argymhellion.

**Swyddfa'r Llywydd.**

**PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD**

**<u>Dadansoddiad o'r Buddiannau a Gofrestrwyd</u>**

Cofrestrodd yr holl Aelodau eu buddiannau gyda'r Swyddfa Gyflwyno cyn y dyddiadterfyn o 5 a 6 Gorffennaf. Prin oedd gan y rhan fwyaf o Aelodau unrhyw beth i'wgofrestru. Penderfynodd llawer ohonynt gofrestru pethau nad oedd wir angen eu cofrestru ermwyn bod mor agored â phosib. Ymhlith y pethau hynny oedd mân letygarwch, rhoddion(gwerth llai na £125) a chyfrannau nad oeddynt werth cymaint ag 1% o werth yr hollgyfrannau neu heb fod yn fwy na £25,000 (yn unol â'r canllaw).

Mae rhai Aelodau wedi penderfynu datgan buddiannau anuniongyrchol. (Buddiantanuniongyrchol yw lle bo gan berson arall fuddiant ariannol neu fuddiant o fath arall abod perthynas sefydliedig rhyngddo/rhyngddi a’r aelod megis priod neu bartner neuaelod o deulu agos.) Dywed paragraff 6 o’r canllaw ar fuddiannau Aelodau "Osbydd Aelodau yn credu y byddai’n rhesymol meddwl y gallai’r buddiannau hynnyddylanwadu ar eu gweithredoedd, yna dylid cofrestru’r buddiant".

**Casgliad**

Mae’r Swyddfa Gyflwyno wedi rhoi gyfarwyddyd a chyngor i Aelodau ynghylch yr hyn ydylent ei gofrestru. Roedd y rhan fwyaf o ymholiadau’n deillio o’r ffaith bodAelodau’n anghyfarwydd â’r canllaw neu am eu bod yn ansicr ynghylch yr eitemaua gynhwysir ym mhob categori. Y cwestiwn mwyaf cyffredin oedd ynghylch diffyg categoripenodol ar gyfer gwaith ad hoc gyda’r wasg/cyfryngau, neu ynghylch aelodaeth o undeb.Roedd y Swyddfa Gyflwyno yn gallu rhoi cyngor cyffredinol tra’n atgoffa aelodau maieu cyfrifoldeb hwy oedd bodloni eu hunain eu bod wedi cofrestru buddiant y byddai’nrhesymol meddwl y gallai ddylanwadu ar eu gweithredoedd yn y Cynulliad. Efallai y byddangen yn y dyfodol ystyried sut gellid trefnu cyngor cyfreithiol personol i Aelodauynghylch eu hamgylchiadau personol.

**Swyddfa Gyflwyno**

**Swyddfa’r Llywydd**

**PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD**

| Categori: | Nifer: | Manylion: |
|---|---|---|
| **1. Cyfarwyddwyr** | 10 | • Y rhan fwyaf ohonynt heb dâl neu’n gyfarwyddwyr ar fudiadau gwirfoddol. |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| **2. Gwaith** | 6<br>9<br>7 | • Erthyglau papur newydd/ ymddangosiadau ar y teledu – achlysurol<br>• Gwaith mewn Banc/Busnes/ Ymgynghorydd/ Darlithydd/Hunan-gyflogedig<br>• Aelod Seneddol |
| **3. Enwau cleientau (gwasanaethau)** | 2 | • Cleientau bargyfreithwyr ac ati |
| **4. Rhoddion, lletygarwch ac ati** | 1<br>1<br>3<br>4<br>1 | • Llyfr<br>• Waled Cardiau Busnes<br>• Eitemau fel car model<br>• Tocyn Cyngerdd/Rygbi a lletygarwch<br>• Ciniawau gwaith |
| **5. Tâl** | 2<br>1<br>1<br>3 | • Newyddiaduraeth<br>• Bargyfreithiwr<br>• Ymgynghorydd<br>• Pensiwn/Difidendau |
| **6. Nawdd ariannol** | 14 | • Treuliau etholiadol neu gyfraniad gan undeb |
| **7. Ymweliadau tramor** | 2 | • I wneud areithiau ac ati |
| **8. Tir ac eiddo** | 3<br>1<br>1<br>5 | • Tir ffermio<br>• Tir partneriaid<br>• Masnachol<br>• Eiddo/Tir preswyl |
| **9. Enwau cwmnïau (cyfrannau)** | 1<br>2<br>8 | • Cyfrannau mewn banc<br>• Cwmni cemegol<br>• Eraill |
| **10. Aelod/ Cadeirydd o gyrff sy'n derbyn arian gan y Cynulliad** | 7<br>2<br>6<br>1<br>2 | • Llywodraethwyr ysgol<br>• Ffora busnes<br>• Cynghorau<br>• Undebau ffermwyr<br>• Eraill |

| | | |
|---|---|---|
| **11. Seiri rhyddion** | 0 | • Dim cofnod |

**PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD STD01-99(p.2)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Iau, 22 Gorffennaf 1999 |
| **Amser:** | 2pm-3.30pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |
| **Teitl:** | **COFRESTR BUDDIANNAU AELODAU** |

***Diben***

1. Mae'r papur yn disgrifio'r gofynion ar gyfer cofrestru buddiannau yn yCynulliad a'r trefniadau sydd bellach yn eu lle ac/neu sydd yn yr arfaeth ar gyfercynnal Cofrestr ffurfiol a'i chadw'n agored ar gyfer ei harchwilio.

***Camau Gweithredu ac Amseru***

2. Gwahoddir y Pwyllgor yn benodol i gytuno ar yr argymhellion ym mharagraffau 5 a 6isod yn ei gyfarfod ar 22 Gorffennaf er mwyn i drefniadau allu cael eu gwneud yn ystod yToriad i gyhoeddi'r Gofrestr ym mis Medi.

***Cefndir – Cofrestru Buddiant***

3. Yn unol ag adran 72 Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a rheol sefydlog 4, mae'nofynnol i aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru gofrestru buddiannau a restrir yn Atodiad yRheolau Sefydlog cyn pen wyth wythnos ar ôl tyngu'r llw neu roi'r cadarnhad aci gofrestru unrhyw newidiadau i'r buddiannau hynny cyn pen pedair wythnos ar ôli'r newid hwnnw ddigwydd. Gosodwyd y Canllaw i Aelodau'r Cynulliad ar Gofrestrua Datgan Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mai a chafoddei fabwysiadu gan  y Cynulliad ar 19 Mai 1999. Mae ymrwymiad ar yr holl Aelodau igwblhau, arwyddo a dychwelyd y ffurflen benodedig yn bersonol i'r Swyddfa Gyflwyno.Tyngodd yr holl Aelodau eu llwon (neu roi eu cadarnhad) ar 10/11 Mai, felly'r terfynamser ar gyfer dychwelyd y  ffurflenni oedd 5/6 Gorffennaf.

4. Amgaeir dadansoddiad o'r buddiannau sydd wedi'u datgan hyd yma.

***Argymhellion – Y Gofrestr a Hawl y Cyhoedd i'w Harchwilio***

5. Mae'n ofynnol yn ôl y Ddeddf a'r rheolau sefydlog bod cofrestr ofuddiannau Aelodau yn cael ei chadw a'i chyhoeddi gan y Llywydd a bod copïau ar gaeli'r Aelodau a'r cyhoedd eu harchwilio. Y Swyddfa Gyflwyno sy'ncyflawni'r swyddogaeth hon ar ran y Llywydd. **Argymhellir** bod Aelodau yncadarnhau eu bod yn fodlon â'r trefniant hwn.

6. Mae'r Gofrestr ar ffurf cronfa ddata electronig y gall Aelodau a staff yCynulliad trwy wefan Mewnrwyd y Cynulliad Cenedlaethol ei  darllen a gall y cyhoedd achyrff eraill eu harchwilio trwy adroddiad ar y gronfa ddata hon a gaiff ei gyhoeddi arsafle Rhyngrwyd y  Cynulliad Cenedlaethol. Caiff y gronfa ddata ei diweddaru pan acos daw'r Aelodau â'u newidiadau. **Argymhellir** bod yr adroddiad o'rFewnrwyd yn cael ei gyhoeddi bob chwarter (yr arfer yn Nhy'r Cyffredin yw ei gyhoeddiunwaith y flwyddyn) a bod yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi  ym mis Medi.

7. Gall aelodau'r cyhoedd ddod i weld y Gofrestr yn bersonol yn adeilad yCynulliad Cenedlaethol ym Mae Caerdydd. Daw clerc o'r Swyddfa Gyflwyno â chopio'r gofrestr i'r unigolyn dan sylw. Gellir gofyn am ddarnau neu gopïau o'rgofrestr ac fe ellir codi tâl bychan am hynny.

***Cydymffurfio***

8. Mae'r trefniadau sydd bellach yn eu lle ac sydd wedi'u hargymell i'rPwyllgor yn cydymffurfio â gofynion y Rheolau Sefydlog a Deddf Llywodraeth Cymru 1998.Nid oes goblygiadau ariannol i'r argymhellion.

**Swyddfa'r Llywydd.**

**PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD**

<u>**Dadansoddiad o'r Buddiannau a Gofrestrwyd**</u>

Cofrestrodd yr holl Aelodau eu buddiannau gyda'r Swyddfa Gyflwyno cyn y dyddiadterfyn o 5 a 6 Gorffennaf. Prin oedd gan y rhan fwyaf o Aelodau unrhyw beth i'wgofrestru. Penderfynodd llawer ohonynt gofrestru pethau nad oedd wir angen eu cofrestru ermwyn bod mor agored â phosib. Ymhlith y pethau hynny oedd mân letygarwch, rhoddion(gwerth llai na £125) a chyfrannau nad oeddynt werth cymaint ag 1% o werth yr hollgyfrannau neu heb fod yn fwy na

£25,000 (yn unol â’r canllaw).

Mae rhai Aelodau wedi penderfynu datgan buddiannau anuniongyrchol. (Buddiantanuniongyrchol yw lle bo gan berson arall fuddiant ariannol neu fuddiant o fath arall abod perthynas sefydliedig rhyngddo/rhyngddi a’r aelod megis priod neu bartner neuaelod o deulu agos.) Dywed paragraff 6 o’r canllaw ar fuddiannau Aelodau "Osbydd Aelodau yn credu y byddai’n rhesymol meddwl y gallai’r buddiannau hynnyddylanwadu ar eu gweithredoedd, yna dylid cofrestru’r buddiant".

**Casgliad**

Mae’r Swyddfa Gyflwyno wedi rhoi gyfarwyddyd a chyngor i Aelodau ynghylch yr hyn ydylent ei gofrestru. Roedd y rhan fwyaf o ymholiadau’n deillio o’r ffaith bodAelodau’n anghyfarwydd â’r canllaw neu am eu bod yn ansicr ynghylch yr eitemaua gynhwysir ym mhob categori. Y cwestiwn mwyaf cyffredin oedd ynghylch diffyg categoripenodol ar gyfer gwaith ad hoc gyda’r wasg/cyfryngau, neu ynghylch aelodaeth o undeb.Roedd y Swyddfa Gyflwyno yn gallu rhoi cyngor cyffredinol tra’n atgoffa aelodau maieu cyfrifoldeb hwy oedd bodloni eu hunain eu bod wedi cofrestru buddiant y byddai’nrhesymol meddwl y gallai ddylanwadu ar eu gweithredoedd yn y Cynulliad. Efallai y byddangen yn y dyfodol ystyried sut gellid trefnu cyngor cyfreithiol personol i Aelodauynghylch eu hamgylchiadau personol.

**Swyddfa Gyflwyno**

**Swyddfa’r Llywydd**

**PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD**

| Categori: | Nifer: | Manylion: |
| --- | --- | --- |
| **1. Cyfarwyddwyr** | 10 | • Y rhan fwyaf ohonynt heb dâl neu’n gyfarwyddwyr ar fudiadau gwirfoddol. |

| | | |
|---|---|---|
| **2. Gwaith** | 6<br>9<br>7 | • Erthyglau papur newydd/ ymddangosiadau ar y teledu – achlysurol<br>• Gwaith mewn Banc/Busnes/ Ymgynghorydd/ Darlithydd/Hunan-gyflogedig<br>• Aelod Seneddol |
| **3. Enwau cleientau (gwasanaethau)** | 2 | • Cleientau bargyfreithwyr ac ati |
| **4. Rhoddion, lletygarwch ac ati** | 1<br>1<br>3<br>4<br>1 | • Llyfr<br>• Waled Cardiau Busnes<br>• Eitemau fel car model<br>• Tocyn Cyngerdd/Rygbi a lletygarwch<br>• Ciniawau gwaith |
| **5. Tâl** | 2<br>1<br>1<br>3 | • Newyddiaduraeth<br>• Bargyfreithiwr<br>• Ymgynghorydd<br>• Pensiwn/Difidendau |
| **6. Nawdd ariannol** | 14 | • Treuliau etholiadol neu gyfraniad gan undeb |
| **7. Ymweliadau tramor** | 2 | • I wneud areithiau ac ati |
| **8. Tir ac eiddo** | 3<br>1<br>1<br>5 | • Tir ffermio<br>• Tir partneriaid<br>• Masnachol<br>• Eiddo/Tir preswyl |
| **9. Enwau cwmnïau (cyfrannau)** | 1<br>2<br>8 | • Cyfrannau mewn banc<br>• Cwmni cemegol<br>• Eraill |
| **10. Aelod/ Cadeirydd o gyrff sy'n derbyn arian gan y Cynulliad** | 7<br>2<br>6<br>1<br>2 | • Llywodraethwyr ysgol<br>• Ffora busnes<br>• Cynghorau<br>• Undebau ffermwyr<br>• Eraill |

| | | |
|---|---|---|
| **11. Seiri rhyddion** | 0 | • Dim cofnod |